Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	**Gareth Price** – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 17 Chwefror 2025	0300 200 6565
Amser: 14.00	Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Rhys ab Owen AS yn ymuno o bell.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Vaughan Gething AS.

2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod yn breifat â deisebwyr yn union cyn y cyfarfod ac wedi tynnu sylw at feysydd a drafodwyd yn y trafodaethau hynny. Nododd yr Aelodau gwmpas eang y materion a godwyd, a oedd y tu hwnt i'r Pwyllgor Deisebau i'w cymryd ymhellach, ac a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gael strategaeth drawslywodraethol. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am strategaeth draws-bortffolio'r Llywodraeth ar fynd i'r afael â COVID hir, ac yn enwedig ar gyfer y bobl hynny sydd allan o waith neu'n ei chael yn anodd dychwelyd i'r gwaith oherwydd COVID hir o bosibl heb ddiagnosis, ac i gadw'r ddeiseb ar agor tra'n aros am ymateb. Byddai copi o'r llythyr yn cael ei anfon at yr holl Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol er ymwybyddiaeth. Cytunodd yr Aelodau

hefyd i ysgrifennu at y pwyllgorau pwnc perthnasol yn y Senedd i ofyn am ragor o wybodaeth am yr hyn yr oeddent yn ei wneud, neu wedi'i gynllunio ar gyfer COVID hir, gyda'r bwriad o wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Byddai Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru yn cael ei gopïo i'r ohebiaeth, er ymwybyddiaeth.

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Cytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru i ofyn am eglurhad ar y pwynt a godwyd gan y deisebwyr ynghylch disgresiwn staff ar wasanaethau arlwyo Trafnidiaeth Cymru, gyda'r bwriad o gau'r ddeiseb wedyn unwaith y daw'r ymateb hwnnw i law.

3.2 P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn ar unwaith

Nododd y Cadeirydd fod y Prif Weithredwr mewn cyfarfod diweddar rhwng Aelodau Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y byddai diweddariad pellach ar y sefyllfa yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i dynnu sylw at yr ymatebion diweddaraf gan y Grŵp Gweithredu Ysbytai a'r Gymdeithas Ysbytai Cymunedol, ac i anfon copi at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, ac yna gobeithiai weld mwy o eglurder yn y diweddariad nesaf gan y Bwrdd Iechyd. Byddai'r ddeiseb yn cael ei chadw ar agor tra'n aros am eu hymateb.

3.3 P-06-1405 Mae eisiau ac mae angen uned Iechyd Meddwl â gwelyau i ddynion arnom ni yng Ngogledd Cymru

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth fanwl a ddarparwyd gan y Byrddau Iechyd mewn ymateb i gais blaenorol am ddarparu cymorth iechyd meddwl acíwt 24/7. Roedd y data yn dangos ystod o arferion ar draws gwahanol rannau o Gymru. Nodwyd, ers yr ystyriaeth ddiwethaf, bod cynnydd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, ac y gellid bwydo sylwadau'r deisebydd i'r broses honno. Felly, cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i dynnu sylw at y sylwadau hynny a cheisio eglurhad ar yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r strategaethau hynny. Cytunwyd i gadw'r ddeiseb ar agor tra'n aros ymateb.

4 Papurau i'w nodi

Cafodd y papurau eu nodi.

4.1 P-06-1449 Dylid dynodi Dyffryn Tywi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

4.2 P-06-1467 Cyfarwyddo GIG Cymru i ychwanegu Adenomyosis at y rhestr A i Y ar ei wefan 111

4.3 P-06-1482 Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

6 Trafodaeth Cynllunio Strategol

(14.30 - 15.00)

Trafododd yr Aelodau bapur ar flaenoriaethau rhaglen waith ar gyfer gweddill y Chweched Senedd, gan gynnwys: ffocws gwaith ymchwiliad pellach yn yr amser sydd ar gael; adolygu darpariaethau'r Rheol Sefydlog ar gyfer y broses ddeisebu cyn y Seithfed Senedd; materion ymgysylltu â'r cyhoedd; ac adrodd ar etifeddiaeth. Rhannodd yr Aelodau eu barn a chytunwyd i drafod papur opsiynau pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.